| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **200 - Rheoliadau Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 21 Hydref 2020* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 20 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | SICM(5)38 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 27/10/20 |

**Cefndir**

Bwriedir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 41 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

**Crynodeb**

Amcan yr OS yw sicrhau bod llyfr statud y DU yn gweithio'n gydlynol ac yn effeithiol yn dilyn diwedd y cyfnod pontio. Mae'n egluro sut y dylid dehongli rhai termau, gan gynnwys diffiniadau sy'n ymwneud â'r UE, mewn deddfwriaeth ddomestig yn dilyn diwedd y cyfnod pontio.
Mae'r OS yn diwygio Deddf Dehongli 1978 a'r Deddfau Dehongli cyfatebol a basiwyd gan y deddfwrfeydd datganoledig (gan gynnwys Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019) mewn perthynas â dehongli cyfeiriadau at y “gyfraith berthnasol o ran y cytundeb gwahanu”. Mae'r OS hefyd yn

diwygio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ddarparu ar gyfer sut y dylid darllen cyfeiriadau presennol at offerynnau'r UE sy'n rhan o’r gyfraith berthnasol o ran y cytundeb gwahanu a sut y dylid darllen cyfeiriadau presennol nad ydynt yn newidiadwy at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE yn dilyn diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r OS yn gwneud darpariaethau dehongli newydd yng ngoleuni Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 i gael gwared ar ansicrwydd ynghylch pa fersiwn o offeryn yr UE sy'n berthnasol, ac mae'n darparu glòs cyffredinol i sicrhau y cymhwysir y dehongliad cywir o offeryn yr UE.

Mae'r OS hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau Canlyniadol a Diddymiadau a Dirymiadau) (Ymadael â'r UE) 2019 (Rheoliadau 2019) a diddymiadau technegol i ddarpariaethau diangen mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â’r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 2 Tachwedd 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10**
Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ar 2 Tachwedd 2020.

Disgwylir i gynnig i drafod y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2020.